



Rhaglen Ddysgu Sgiliau Gweithgareddau Allan â Ni!

Dim ond pan fydd pobl yn teimlo'n gyfforddus ac yn hyderus yn yr awyr agored y byddant yn fodlon mentro i'r awyr agored, mwynhau'r profiad ac elwa ar y manteision. Mae grwpiau'n fwy tebygol o fentro i'r awyr agored pan fo'u harweinydd yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i'w cadw'n ddiogel a chael hwyl.

Amcanion y Rhaglen Ddysgu

- Galluogi pawb i deimlo'n wybodus, yn hyderus ac yn frwdfrydig fel y gallant ysgwyddo cyfrifoldeb dros eu mwynhad a'u diogelwch eu hunain, tra'n gwneud gweithgareddau awyr agored lefel isel, ar eu pen eu hunain neu gyda chyfeillion a theulu.
- Galluogi arweinwyr grwpiau i fod â'r wybodaeth a'r sgiliau i arwain gweithgareddau awyr agored lefel isel, gan sicrhau bod pawb yn cael hwyl ac yn aros yn ddiogel, a galluogi cynorthwywyr i'w cefnogi.

Ar gyfer pwy y mae'r Rhaglen?

Unrhyw rai nad ydynt yn teimlo'n arbennig o hyderus ynghylch gwneud gweithgareddau awyr agored yn annibynnol ac sydd, felly, yn annhebygol o fod â llawer o brofiad yn yr awyr agored.

Mae'r unedau ar gyfer Arweinwyr a Chynorthwywyr wedi'u hanelu at weithwyr cymorth sy'n gyfrifol am ddefnyddwyr gwasanaethau; arweinwyr grwpiau gwirfoddol; ac arweinwyr gweithgareddau lefel isel. Maent ar gyfer y rheini nad ydynt yn gyfforddus yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros grŵp yn yr awyr agored, neu gynorthwyo arweinydd.

“Yn sicr, mi a' i draw i'r llefydd yna eto. Rŵan, mi fedra i edrych ar y map a dewis ble i fynd.”

“Rydw i wirioneddol eisiau gwella fy sgiliau darllen rŵan!”

“Mae'r grŵp wedi mwynhau pob agwedd ar yr hyfforddiant, a fedra' i ddim disgwyl mynd i'r sesiwn nesaf, ni waeth be fo'r tywydd.”



Er mwyn cael eu hasesu fel arweinwyr cymwys, fe fydd angen i'r dysgwyr fod wedi cwblhau cyrsiau deuddydd cydnabyddedig, a hynny mewn cymorth cyntaf yn yr awyr agored ac mewn sgiliau canfod ffordd.

Ennill gwybodaeth, sgiliau a phrofiad trosglwyddadwy

- Gwybodaeth am fyw'n iach, defnyddio'r rhyngwrwyd a chadw cofnodion
- Sgiliau cyfathrebu, darllen mapiau a chanfod ffordd, asesu risgiau ac iechyd a diogelwch.
- Profiad o asesu anghenion y defnyddwyr, cynllunio ar gyfer grwpiau, trefnu, cynorthwyo ac arwain.

Pontio'r bwloch

Mae'r rhaglen hon yn pontio'r bwloch rhwng bod â dim gwybodaeth na sgiliau o gwbl mewn gweithgareddau awyr agored, a chymryd rhan yn yr hyfforddiant ar gyfer arweinwyr a gynigir trwy gyfrwng y Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol amrywiol sy'n ymwneud â'r awyr agored.

Dull arloesol

Gan roi pwyslais ar ddysgu rhyngweithiol ac ymarferol, caiff yr hyfforddiant hwn ei gyflwyno mewn blociau 10-20 munud, yn ystod gweithgareddau awyr agored a ddewisir gan y grŵp. Golyga hyn ei fod yn arbennig o addas i'r rheini sy'n llai cyfforddus gyda dysgu ffurfiol, dan do, sy'n seiliedig ar ddarllen ac ysgrifennu.

Mae'r dull arloesol hwn o gyflwyno'r hyfforddiant yn golygu y gall arweinwyr grwpiau a chynorthwywyr, sydd ag amser ac arian cyfyngedig yn unig ar gyfer hyfforddiant, ennill y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol, tra'n cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored gyda'u grŵp.

4 Uned a achredir gan Agored Cymru*

Teitl Uned Agored Cymru	Lefel Uned Agored Cymru	Gwerth Credyd Uned	Nifer y Sesiynau Gweithgareddau/Hyfforddiant Awyr Agored 3 Awr
A Cymryd Rhan mewn Gweithgareddau Awyr Agored	Lefel Mynediad 3	1	4
B Cymryd Rhan mewn Gweithgareddau Awyr Agored gyda Chyfeillion a Theulu	Lefel Un	1	5
C Gweithgareddau Awyr Agored – Cynorthwywyr	Lefel Dau	2	7
D Gweithgareddau Awyr Agored – arwenwyrwyr	Lefel Tri	3	9 gan gynnwys asesiad

Er mwyn cael y credydau y gellir eu dyfarnu am gwblhau unedau'n llwyddiannus, rhaid i'r dysgwyr hefyd gwblhau llyfr gwaith yn eu hamser eu hunain a'i gyflwyno i'w asesu.

Corff dyfarnu yw Agored Cymru ar gyfer darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Ewch i <http://www.agored.cymru/Amdanan-Ni/Geirfa> i gael gwybodaeth am Lefelau Unedau a Gwerth Credydau.

Am ragor o Wybodaeth

Juliet Michael, cyfoeth Naturiol Cymru Eboost: juliet.michael@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Ffôn: 0300 065 3645

<https://naturalresources.wales/about-us/our-projects/the-come-outside-activity-skills-learning-programme>



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Golwg Gyffredinol ar y Rhaglen

Uned A: Paratoi ar gyfer, a chymryd rhan mewn, gweithgaredd a gwybod am y Cod Cefn Gwlad.

Uned B: Yr uchod, ynghyd â gwybod am amrywiaeth o weithgareddau awyr agored a'r gallu i gynllunio a chymryd rhan mewn gweithgareddau gyda theulu a chyfeillion.

Uned C: Yr uchod, ynghyd â deall sut i gynorthwyo arweinydd, y gallu i gynorthwyo a deall risgiau a manteision.

Uned D: Yr uchod, ynghyd â deall yr anghenion ar gyfer rheoli grŵp a'r manteision o gymryd rhan, a'r gallu i gynllunio a chyflwyno gweithgareddau awyr agored ac ystyried y cynllunio a'r gweithredu.